

Open Up — amgueddfeydd I bawb

Rhestr wirio Ffactorau ar gyfer llwyddiant

I ysgogi trafodaeth am sut i ddatblygu amrywiaeth ehangach o ymwelwyr i'ch amgueddfa.

Ysgrifennwyd gan

Julie Aldridge, Mel Larsen a Pam Jarvis

Crewyd ar y cyd gyda

20 amgueddfa ar draws pedair gwlad y Deyrnas Unedig

Dylunio gan

YOUNGDESIGN.STUDIO

Cynhyrchwyd gan

AIM: Cymdeithas yr Amgueddfeydd Annibynnol, MA: Cymdeithas yr Amgueddfeydd, Cyngor Celfyddydau Lloegr, Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru, Amgueddfeydd a Galerïau yr Alban, Amgueddfeydd Cenedlaethol Gogledd Iwerddon a Chronfa Dreftadaeth y Loteri

Cyflwyniad

Mewn cymdeithas gynyddol amrywiol sut y gall amgueddfeydd y DU gynyddu ymweliadau ac ymgysylltiad?

Mae'r sector wedi bod yn siarad am amrywiaeth am gymaint o amser. Sut y gallwn symud y tu hwnt i drafod ac ymlaen i weithredu o ran cynyddu amrywiaeth, cynhwysiant a chydaddoldeb? Sut y gallwn ddechrau gwneud gwahaniaeth go iawn sydd yn parhau yn y sector amgueddfeydd?

Mae'r prosiect Open Up yn dod ag ymarfer effeithiol at ei gilydd o amgueddfeydd ar draws y DU sydd yn arloeswyr o ran agor eu sefydliadau i fyny a datblygu perthynasau gydag amrywiaeth eang o ymwelwyr. Cewch ddarllen eu straeon ar ein gwefan:

openupmuseums.com

Mae'r llyfryn hwn yn darparu rhestr wirio syml i adolygu eich pwynt dechrau. Trafodwch gyda'ch cydweithwyr, a nodwch ble'r ydych yn cytuno neu anghytuno.

Faint o'r ffactorau ar gyfer llwyddiant y gallech eu nodi o fewn eich amgueddfa chi?

Beth a fydd yn gorfod newid er mwyn eich helpu i ddatblygu perthynasau gydag amrywiaeth eang o bobl?

Efallai yr hoffech hefyd gael gafael â'r Canllaw Open Up sydd yn adeiladu ar y llyfryn hwn yn fwy manwl a dwys, ac yn rhannu straeon llwyddiant, gan gyflwyno dulliau gweithredu, cyngor a gweithredoedd i'ch helpu i gynllunio camau ymarferol i'w cymryd yn eich amgueddfa eich hun:

openupmuseums.com

Arweinir amrywiaeth a chynhwysiant o'r pen gyda gweledigaeth ysbrydoledig a rennir.

- Mae gennym weledigaeth a phwrpas cyffrous, a rennir trwy gydol y cwmnisydd yn gyrru popeth 'rydym yn ei wneud.
- Mae gennym weledigaeth â ffocws ar bobl sydd yn diffinio i bwy y mae'r amgueddfa yn bodoli a pha wahaniaeth 'rydym yn ceisio ei wneud i fywydau pobl.
- Mae gennym weledigaeth sydd yn cynnwys angerdd ar gyfer ehangu ymwelwyr.
- Mae gennym arweinydd / bwrdd / tîm arwain sydd yn hyrwyddo cynhwysiant, yn dangos sut y maent yn gwerthfawrogi amrywiaeth, a sut y maent yn ceisio cyflawni cydraddoldeb.

Mae ymrwymiad 360° i amrywiaeth a chynhwysiant

- 'Rydym yn cynnwys pawb yn y sefydliad. Mae amrywiaeth yn rhan o bob r a swyddogaeth yr amgueddfa.
- 'Rydym yn trîm amrywiaeth fel blaenoriaeth, yn ffordd graidd o feddwl.
- 'Rydym yn gweithredu fel sefydliad cyfan. Nid yw hyn ffocws prosiect.
- 'Rydym yn cydnabod ac yn herio ein tuedd anymwybodol (yn fewnol a gyda phartneriaid, gwirfoddolwyr a rhanddeiliaid eraill).

Mae diwylliant agored, ymatebol o fewn y sefydliad.

- 'Rydym yn cynhyrchu syniadau yn rheolaidd i wella amrywiaeth a chynhywsiant.
- 'Rydym yn ceisio pethau, yn mesur canlyniadau, yn dysgu a gwella, er mwyn cael effaith fwy yn unol â'r weledigaeth 'rydym yn ei rhannu.

Mae ffocws cynulleidfa yn gyntaf

- 'Rydym yn rhoi ffocws ar roi ymwelwyr / cyfranogwyr yn gyntaf a meddwl o'r cyhoedd i mewn, yn hytrach nag o'r casgliad y tu allan.
- Mae gennym ddealltwriaeth glir o bwy yw ein hymwelwyr potensial.
- Ac yn bwysicach, 'rydym hefyd yn deall pam y gallent ymgysylltu. Beth sydd o ddiddordeb iddynt, beth sydd yn werthfawr iddynt, a pham eu bod yn meddwl neu yn teimlo rhywbeth penodol.
- 'Rydym yn defnyddio'r mewnwelediad hwn yn rheolaidd i gynllunio sut i addasu / gwella.

Mae'r rhaglen berthnasol yn cael ei chreu a'i chadw

- 'Rydym yn gofyn sut mae'r casgliadau ac arddangosiadau yn adrodd, adlewyrchu a rhannu straeon y gynulleidfa / ymwelwyr bwriadedig.
- 'Rydym yn datblygu cynnwys a rhaglenni penodol sydd yn dangos yn glir bod hyn 'i bobl fel y chi'.
- 'Rydym yn ystryied i bwy yw'r amgueddfa a llais/lleisiau pwy a gynrychiolir. Straeon pwy sydd yn cael eu rhannu.

Rydym yn darparu cynigion a gwahoddiadau cyffrous

- 'Rydym yn deall ac yn cyfathrebu beth sydd yn gwneud yr amgueddfa, ei chasgliad a'i gwaith yn berthnasol i bobl.
- 'Rydym yn archwilio pa gynigion sydd yn berthnasol i'r bobl 'rydym yn ceisio eu hymgysylltu – 'rydym yn siarad â nhw am beth a fydd yn eu hannog i ymweld / cyfranogi.
- 'Rydym yn darparu gwybodaeth ar beth i ddisgwyl.
- 'Rydym yn cael y croeso yn iawn.
- 'Rydym yn efelyngwyr am beth y mae'r amgueddfa yn ei chynnig. 'Rydym yn dangos angerdd a brwdfrydedd am y gwahaniaeth 'rydym yn ei wneud i bobl.

Mae perthynasau gyda rhwydweithiau a chynrychiolwyr cymunedol yn barhaus ac yn cael eu magu

- 'Rydym yn gweithio gyda chymunedau, cynrychiolwyr a phartneriaid presennol y gellir ymddiried ynddynt.
- 'Rydym yn chwilio am ymgysylltiad a chyfranogiad go iawn o fewn cymunedau a grwpiau targed lleol.
- 'Rydym yn rhannu perchnogaeth gyda nhw.
- 'Rydym yn ddyfalbarhaus ac amyneddgar, ac yn magu perthynasau dros amser.
- 'Rydym yn magu perthynasau hir-dymor gyda'n hymwelwyr presennol hefyd.
- 'Rydym yn ystyried elfennau cymdeithasol a chymunedol ein rôl. 'Rydym yn barod i gael ein herio gan bartneriaid allanol ac yn agored i geisio pethau / wneud pethau'n wahanol.

Caiff canlyniadau eu mesur, rhannu a'u defnyddio i hysbysu rhagor o welliant

- 'Rydym yn defnyddio dulliau gweithredu atebol a thryloyw i ddatblygu perthynasau gydag amrywiaeth eang o bobl.
- 'Rydym yn cynhyrchu data a thystiolaeth i fesur pwy 'rydym yn eu cyrraedd.
- 'Rydym yn cynhyrchu data i fesur effaith ein gwaith.
- 'Rydym yn cyfathrebu ar gynnydd. Caiff dysgu ei gydweddu, gwelliannau eu gwneud, a chaiff rhanddeiliaid ehangach eu hysbrydoli i gyfranogi.

Ymunwch

Ymunwch ag arweinwyr amgueddfa ar draws y DU i wneud i newid ddigwydd

Archwiliwch y canllaw Open Up cyflawn.

Mae'r canllaw wedi'i greu i'ch helpu i nodi gweithredoedd ymarferol er mwyn i chi ddechrau symud tuag at amrywio ymwelwyr i'ch amgueddfa.

Ceisiwch rai o'r dulliau gweithredu yn y canllaw i ysgogi trafodaethau pwysig am amrywiaeth yn eich sefydliad.

Dilynwch ein proses bum cam i'ch helpu i ddatblygu perthynasau gydag amrywiaeth eang o ymwelwyr i'ch amgueddfa:

openupmuseums.com

Dywedwch wrthym sut i ch cynorthwyo orau er mwyn i chi wneud y newid hwn yn realiti – pwy fydd yn gallu eich helpu?

Beth sydd yn rhwystro cynnydd tuag at amrywiaeth yn eich sefydliad?

Beth a fydd yn galluogi eich amgueddfa i 'Agor i Fyny' ac ymgysylltu amrywiaeth eang o bobl?

Gwnewch wahaniaeth: rhannwch eich stori gyda chymuned o arweinwyr amgueddfa sydd yn ymrwymedig i ddyfodol amrywiol a chynhwysol.

Rhannwch eich astudiaeth achos, cynigwch gyngor a chymorth i eraill.

Ychwanegwch eich syniadau o sut y gallwn wneud i newid ddigwydd gyda'n gilydd.

Pwynt dechrau yn unig yw r canllaw ar gyfer y rhaglen Open Up.

Cofrestrwch ar gyfer rhagor o wybodaeth a chymorth wrth iddynt fod ar gael:

openupmuseums.com

Partneriaid

Arweinir grwp llywio'r prosiect gan Gymdeithas yr Amgueddfeydd Annibynnol (AIM) gyda Chymdeithas yr Amgueddfeydd, a phedwar sefydliad arall sydd yn cyllido'r prosiect - Cyngor Celfyddydau Lloegr, Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru, Amgueddfeydd a Galerïau yr Alban, Amgueddfeydd Cenedlaethol Gogledd Iwerddon — a gyda chymorth gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri.

openupmuseums.com

[Attribution-NonCommercial-NoDerivs CC BY-NC-ND](https://creativecommons.org/licenses/by-nc-nd/4.0/)

AIM: Association of Independent Museums

aim-museums.co.uk

Cofrestredig yn Lloegr Rhif: 1350939

Elusen Rhif: 1082215